# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 9 Hydref 2018

Amser: 08.30 - 08.57

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Julie James AC<br>Darren Millar AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Neil Hamilton AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i aildrefnu'r ddadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 'Meithrin Cydnerthedd: Ymchwiliad i gyllid heblaw cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau', ar gyfer y cyfnod ar ôl hanner tymor

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 17 Hydref 2018 –**

- ~~Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad: Creu'r Diwylliant Cywir (60 munud)~~ – *gohiriwyd i 21 Tachwedd*
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

**Dydd Mercher 24 Hydref 2018 –**

- ~~Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)~~

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

Dydd Mercher 7 Tachwedd 2018 –

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Cyllid wedi'i Dargedu i Wella Canlyniadau Addysgol (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)

# 4 Deddfwriaeth

## 4.1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Amaethyddiaeth

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y dylid cyfeirio'r Memorandwm at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol i'w ystyried, a chytunodd y Rheolwyr Busnes ar ddyddiad cau o 14 Rhagfyr ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar y mater.

# 5 Pwyllgorau

## 5.1 Cais am ddadl ar Ddeiseb

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i drefnu'r ddadl dan sylw, ond nododd y Rheolwyr y ffaith bod nifer o geisiadau am ddadleuon yn y Cyfarfod Llawn wedi dod i law yn ddiweddar mewn perthynas â deisebau sydd wedi cyrraedd y trothwy o 5,000 o lofnodion ond nad ydynt wedi bod yn destun adroddiad neu ymchwiliad gan y Pwyllgor Deisebau.

Dywedodd y Llywydd wrth y Pwyllgor fod penderfyniadau pellach ar y gweill mewn perthynas â newidiadau i'w phenderfyniad ynghylch sut y caiff llofnodion eu casglu.

## 5.2 Cais gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau i gynnal ymweliad oddi ar y safle

Trafododd y Rheolwyr Busnes y cais, gan benderfynu y byddai'n well ganddynt i Aelodau'r Pwyllgor ddal trên yn hwyrach oni bai bod angen i'r Pwyllgor fod yn Llundain at ddibenion busnes ar amser penodol y noson honno.

### 5.3 Dyrannu lleoedd ar bwyllgorau a chadeiryddion rhwng grwpiau

Gohiriwyd y drafodaeth gan y Rheolwyr Busnes tan y cyfarfod wythnos nesaf.